

BAVO

**Adroddiad Effaith
Blynyddol
2016 - 2017**



**Cefnogi, grymuso, uwchsgilio a
chysylltu pobl fel y gallant chwarae rhan
fwy blaenllaw yn y gymuned**

Rhagair y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd

"Mewn cyfnod o gyni a newid digyffelyb lle mae'r cyllid craidd yn prysur leihau, rydym yn falch o ddweud bod BAVO wedi parhau i gynnal ystod lawn o wasanaethau, er gwaethaf gorfod cwtogi mewn rhai meysydd. Rydym yn dal i weithio gyda channoedd o grwpiau lleol, elusennau lleol a chenedlaethol ac â'r sefydliadau sy'n aelodau gyda ni i ddarparu gwasanaethau lleol sy'n rhoi sylw i anghenion lleol gyda'r nod yn y pen draw o wella ansawdd bywyd trigolion ein cymunedau.

"Rydym hefyd yn parhau i weithredu fel 'landlord' i 'Voluntary House' gan ddarparu lleoedd cyfarfod a lleoedd swyddfa fforddiadwy y mae eu hangen yn ddirfawr ar y sector eleni. Buddsoddwyd hefyd mewn agor Canolfan Wirfoddolwyr bwrpasol yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd hyn mewn ymateb i aelodau yn gweld bod angen inni ddod o hyd i wirfoddolwyr, eu recriwtio a'u defnyddio er mwyn eu helpu i ddarparu eu gweithgareddau a'u gwasanaethau.

"Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn rhagweithiol iawn. Yn wir, fe wnaethon nhw gynnal proses adolygu strategol gan ailymweld â chenhadaeth, gweledigaeth a blaenoriaethau BAVO a bu'r Bwrdd hefyd yn ymgynghori ag aelodau a rhanddeiliaid eraill i lywio cwrs datblygiad BAVO. Rydym yn ddiolchgar i'r bobl hynny a roddodd eu hadborth a'n helpu i wella'r hyn yr ydym ni'n ei wneud. Nid oedd yn syndod mai'r hyn a glywsom oedd bod yr aelodau eisiau inni ganolbwyntio mwy ar eu hanghenion cyfnewidiol, a byddwn yn cysoni ein strwythur er mwyn ystyried hyn.

"Mae gweithio mewn partneriaeth yn dal i fod wrth wraidd ein gwaith wrth ddatblygu sector cynaliadwy. Rydym yn credu bod cydlynw a chydgyssylltu unigolion, grwpiau, rhwydweithiau a chymunedau yn fodd o greu cymunedau mwy annibynnol a chydnerth sy'n gallu gweithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i atebion i broblemau lleol. Yn ein hadolygiad, dywedodd yr aelodau wrthym fod angen ein harweiniad yn y maes hwn, ac y gwerthfawrogir hynny'n

fawr. Fe wnaethom gefnogi rhwydweithiau, fforymau a grwpiau defnyddwyr gwasanaeth i dyfu a ffynnu ac fe anogodd hyn fwy o fudiadau i gydweithio'n fwy effeithiol. Hefyd cefnogwyd datblygiad rhwydweithiau newydd megis y Fforwm Plant a Phobl Ifanc rhanbarthol a Phanel Dinasyddion Bae'r Gorllewin. Roedd hyn oll yn fodd o rannu gwybodaeth, arfer dda, cydgyllunio a chydgynghyrchu.

"Yn ychwanegol at hyn, mae ansawdd ac effeithiolrwydd wrth wraidd yr hyn yr ydym ni'n ei wneud. Mae'n sail i'n gwaith ac yn rhoi sicrwydd i'n haelodau a'n rhanddeiliaid bod yr hyn y mae BAVO yn ei gynnig o safon uchel ac yn effeithiol iawn. Rydym yn falch ein bod wedi elwa o brosiect PQASSO Cymru a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr ac yn gallu cynnig gwasanaeth mentora ynglŷn â sicrwydd ansawdd. Ond rydym hefyd yn falch iawn o fod y sefydliad cyntaf yng Nghymru i gael ein hachredu gyda Safon Ansawdd PQASSO i Gymru.

"Mae ein Hadroddiad Effaith Blyneddol yn rhoi cipolwg yn unig o natur amrywiol ein gwaith a gobeithiwn y bydd o ddiddordeb ichi. Rydym yn ddiolchgar iawn i'n holl bartneriaid a'r arianwyr sy'n buddsoddi ynom fel y gallwn ddarparu'r ehangder hwn o weithgareddau.

"Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn i'n Bwrdd Ymddiriedolwyr sylwgar a medrus sy'n gosod y weledigaeth ac i'n tîm hynod ddawnus sy'n gweithio i gyflawni hynny!"



Heidi Bennett
MBA, Aelod Siartredig o'r
MIPD a Phrif Weithredwr



Mark Davies
Cadeirydd

Ymddiriedolwyr 2016/17

Steve Curry	Tai Cymoedd i'r Arfordir
Mark Davies (Cadeirydd)	Partneriaeth Pobl Ifanc Cwm Ogwr
Steve Driscoll	Yellow Wales
Les Jones (Is-gadeirydd)	The Court House, Maesteg
Mari Major MBE	Pwyllgor Sefydlog Apeliadau Elusennol Cymdeithas Ddinesig Pen-y-bont ar Ogwr
Clive Owen	Gofal Galar Cruse Morgannwg
Y Cyngh. Mike Gregory	Aelod Cabinet, CBS Pen-y-bont ar Ogwr (cyfetholedig)
Y Cyngh. Charles Smith	Aelod Cabinet, CBS Pen-y-bont ar Ogwr (cyfetholedig) a Chanolfan Gymunedol Westward

Datganiad cenhadaeth

Ein diben yw cefnogi, annog a hyrwyddo datblygiad sector gwirfoddol a chymunedol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr sy'n effeithiol ac yn effeithlon, yn wybodus ac yn ddylanwadol ac yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl.

Gwerthoedd

Mae gwaith BAVO yn seiliedig ar gyfres o werthoedd sy'n helpu i bennu blaenoriaethau a'r dull gweithio cyffredinol. Rydym yn cydnabod bod Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn amrywiol a bod gan bawb yr hawl i gyfle cyfartal ac i gyfrannu at eu cymuned.

Yr hyn yr ydym yn awyddus i'w gyflawni:

- Sefydliadau gwirfoddol a chymunedol cryfach drwy ddarparu cefnogaeth, cyngor a hyfforddiant a chyfleoedd dysgu, datblygu sgiliau a meithrin gallu;

- Cymunedau byrlymus ac amrywiol drwy gefnogi a hyrwyddo gwirfoddoli a dinasyddiaeth weithgar, cyfle cyfartal ac amrywiaeth;
- Trydydd sector hyderus a dylanwadol, drwy eiriol dros roi llais i'r sector wrth lunio polisiau, strategaethau, cynnig atebion ar y cyd i faterion lleol a rhoi'r sector wrth wraidd prosesau cynllunio a chomisiynu lleol;
- Mwy o lais i ddinasyddion a chymunedau drwy alluogi defnyddwyr gwasanaeth/gofalwyr, grwpiau cymunedol a dinasyddion i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau lleol sy'n effeithio arnyn nhw a'u bywydau;
- Trydydd sector cynaliadwy o ganlyniad i sefydlu partneriaethau cryf, gwella sgiliau gwirfoddolwyr a staff, adnabod cyfleoedd cydlynw a chysylltu ar gyfer cydweithredu yn y trydydd sector a rhwng sectorau.



CANLYNIAD:

Mwy o bobl ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ymwneud â gwirfoddolwyr a gwirfoddoli ac yn cael budd o hynny.

Roedd eleni'n flwyddyn gyffrous i BAVO gyda Carwyn Jones, Aelod Seneddol Pen-y-bont ar Ogwr yn agor Canolfan Wirfoddolwyr newydd yng nghanol tref Pen-y-bont. Mae ein canolfan newydd yn cynnig yr wybodaeth, cyngor a chefnogaeth ddiweddaraf i bobl sy'n edrych am gyfleoedd gwirfoddoli ac i sefydliadau gwirfoddol neu grwpiau cymunedol sy'n chwilio am wirfoddolwyr.

Dyweddodd Carwyn Jones AC: "Bydd cael y ganolfan wybodaeth hon ynglŷn â gwirfoddoli yng nghanol tref Pen-y-bont yn sicr yn annog mwy o bobl i daro mewn ac edrych ar y cyfleoedd di-ri sydd ar gael. Roedd hi'n wych gweld dros fy hun yr adnodd defnyddiol hwn ac i siarad â thîm BAVO ynglŷn â'u canolfan. Gall gwirfoddoli roi boddhad mawr a chaiff unrhyw amser rhydd y mae pobl yn ei roi ei werthfawrogi'n fawr."

Gweithiodd y tîm gyda'n haelodau i wella niferoedd, ansawdd ac amrywiaeth y cyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael yn lleol. Maent yn cynnig cyngor a chefnogaeth i fudiadau ar bob agwedd ar arferion gwirfoddoli da wrth recriwtio, goruchwyllo, hyfforddi a dal gafael ar wirfoddolwyr.

Fe wnaethom gyfarfod yn unigol â phobl ledled yr ardal oedd â diddordeb mewn gwirfoddoli i drafod sut yr hoffon nhw elwa o'r gwirfoddoli ac i baru eu hanghenion, eu dyheadau a'u sgiliau unigol nhw â sefydliadau.

Beth wnaethom ni ei gyflawni...?

Ymatebwyd i 1,286 o ymholiadau gan wirfoddolwyr.

Cynhaliwyd 486 o gyfweiliadau gwirfoddoli.

Cafwyd gwaith gwirfoddol i 259 o bobl.

Cafodd 58 o sefydliadau gymorth gyda materion yn ymwneud ag arferion gorau ym maes gwirfoddoli.

Cafodd mwy na 300 o fudiadau gwirfoddol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont gymorth i hysbysebu eu cyfleoedd gwirfoddoli ar wefan Gwirfoddoli Cymru.

Ymunodd 42 o sefydliadau â'n sioe deithiol gwirfoddolwyr i ddathlu Wythnos Gwirfoddolwyr 2016.

Cynhaliwyd 4 Fforwm Rheolwyr Gwirfoddolwyr yn ystod y flwyddyn gyda mwy na 40 o aelodau'n bresennol.

Er mwyn hyrwyddo manteision, effaith a natur amrywiol gwirfoddoli, cynhaliwyd Wythnos Flynyddol y Gwirfoddolwyr a'n Gwobrau Llwyddiant Gwirfoddolwyr, a oedd yn dathlu ymrwymiad, cyrhaeddiad ac ymroddiad gwirfoddolwyr. Rhoddodd y tîm hefyd **10** cyflwyniad i grwpiau lleol a mynd i **20** digwyddiad Gwirfoddolwyr gan gynnwys ffeiriau gwaith, sesiynau yng ngholegau Pencoed a Phen-y-bont ar Ogwr a digwyddiadau amrywiol.

Diolch i wirfoddolwyr Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, mae llawer o brosiectau a gwasanaethau cymunedol wedi llwyddo i oroesi a pharhau i ddarparu gwasanaethau i'r rhai mewn angen.

Pa effaith gawsom ni?

Stori Helen...

"Rwy'n gwirfoddoli gyda'r Cyfeillion Cymunedol, ac yn rhoi cefnogaeth gyfeillio i dri pherson bob wythnos. Mae gan y bobl yr wyf i'n rhoi cefnogaeth gyfeillio iddynt i gyd eu problemau, eu pryderon a'u diddordebau gwahanol. Ar ôl bod yn ddi-waith am beth amser roedd angen immi gamu ymlaen. Credwch neu beidio, fe wnaeth yr wynebau a welais i yn sesiwn wybodaeth BAVO roi'r hyder angenrheidiol imi ddechrau ymddiried mewn pobl eto.

"Rwyf wedi gweithio'n galed iawn i gyrraedd ble'r ydwi heddiw. Heb gymorth BAVO byddai'r siwrne wedi bod yn fwy anodd. Heblaw am yr holl hyfforddiant, yr ymwneud cymdeithasol a'r goruchwyllo, roedd gwybod bod y staff ar ben arall y ffôn, ac yn deall pan oedd gen i amheuan neu pan oeddwn yn bryderus am unrhyw beth, yn gwneud pethau'n haws o lawer i mi. Rhoddodd gwirfoddoli'r hwb yr oedd ei angen arnaf i wneud y camau nesaf.

"Daeth cyfle i fod yn gynghorydd ac achubais ar y cyfle hwnnw. Rwyf hefyd wedi penderfynu gwirfoddoli gyda'r RNIB.

"Mae wedi bod yn braf iawn cwrdd â'r holl bobl newydd ar hyd y ffordd. 'Does dim ots ym mhle y buoch chi, pa mor isel yr ydych chi wedi teimlo, dylai fod goleuni o hyd i'n tywys ni - BAVO oedd fy ngoleuni i."

Gwirfoddolwyr ifanc (14 – 25 oed)

Mae angen lleoliadau gwirfoddoli ystyrlon, heriol a boddhaus ar bobl ifanc. Bu BAVO yn gweithio gyda'r sector i gynyddu amrywiaeth y cyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael drwy raglen genedlaethol GwirVol.

Bu'r tîm yn rheoli'r rhaglen leol Gwirfoddolwyr y Mileniwm sy'n gwobrwyo pobl ifanc gyda 'thystysgrifau cyrhaeddiad' ar ôl iddyn nhw gwblhau 50, 100 a 200 awr o waith gwirfoddol. Rydym hefyd wedi datblygu cysylltiadau cryfach gydag ysgolion a cholegau i sicrhau bod mwy o bobl ifanc yn ymwybodol o wirfoddoli fel llwybr a allai wella eu sgiliau, eu hyder a'u CV.

Bu BAVO yn gweithio hefyd gyda sefydliadau ar yr arferion gwirfoddoli gorau fel eu bod yn teimlo'n fwy abl i gefnogi gwirfoddolwyr ifanc. Fe wnaethom ni hefyd hwyluso Panel Grantiau Pobl Ifanc a ddyrannodd £4,000 o gyllid i brosiectau a ddyluniwyd i annog pobl ifanc i ymgymryd â chyfleoedd gwirfoddoli. Syniadau pobl ifanc oedd yr holl brosiectau hyn a nhw oedd yn gyfrifol am eu harwain hefyd.



Pa effaith gawsom ni?

Stori Daniel ...

"Rwy'n gwirfoddoli yng Nghanolfan Deulu y Zone. Rwy'n helpu i wneud y diodydd yn y ganolfan galw heibio ac yn sicrhau bod y gwaith glanhau yn digwydd yn rheolaidd. Yn gyffredinol rwy'n helpu gyda gwasanaethu cwsmeriaid, trin arian a sgwrsio â phobl. Fe wnes i ddechrau cymryd rhan drwy Ganolfan Wirfoddolwyr BAVO. Soniodd y Ganolfan Waith wrthyf am wirfoddoli gyda BAVO, felly dyma fi'n mynd drwy wefan Gwirfoddoli Cymru ac fe gysylltodd Geraint â fi. Roeddwn eisiau cymryd rhan yn y gymuned i feithrin fy hyder a magu profiad ym maes lletygarwech er mwyn datblygiad personol a dod i arfer â theithio, achos roedd defnyddio'r bws yn codi ofn arna i.

"Rwyf wedi cwblhau fy hyfforddiant Mentora Cyfoedion er mwyn cael fy mharu gyda pherson ifanc. Rwyf wedi cwblhau cwrs Paratoi i Ofalu, Diogelu Oedolion Bregus, Codi a Chario, Cymorth Cyntaf a Hylendid Bwyd ac rwyf hefyd wedi cwblhau fy 200 awr ar gyfer rhaglen Gwirfoddolwyr y Mileniwm.

"Mae gwirfoddoli wedi bod yn hwb enfawr i fy hyder i. Dwi ddim yn pryderu mwyach am ddefnyddio'r bws, dwi ddim yn poeni cymaint am siarad gyda phobl newydd, rwyf wedi ennill profiad ac, mae'n debyg, hunaniaeth hefyd. Rwyf wedi ennill cymwysterau, rwyf wedi magu hunan-werth. Rwyf wedi gwneud ffrindiau newydd drwy wirfoddoli ac mae hynny wedi fy helpu i yn gymdeithasol. Heb Ganolfan Wirfoddolwyr BAVO, fyddwn i ddim yn gwybod am y sefydliad a fyddwn i heb ddechrau gwirfoddoli."

Beth wnaethom ni ei gyflawni...?

Aeth 231 o bobl i gyfweiliadau Canolfan Gwirfoddolwyr BAVO.

Cafwyd gwaith gwirfoddol i 128 o bobl ifanc.

Cofrestrodd 62 o wirfoddolwyr ifanc newydd ar raglen Gwirfoddolwyr y Mileniwm.

Cyflwynwyd 55 o dystysgrifau i bobl ifanc ar raglen Gwirfoddolwyr y Mileniwm.

Roedd 135 o gyfleoedd newydd ar gael i bobl ifanc 14 – 25 oed.

Yn seiliedig ar ffigurau Gwirfoddolwyr y Mileniwm a'r oriau a gwblhawyd: cwblhaodd 62 o bobl ifanc 4,900 o oriau gwirfoddoli a oedd yn werth £36,750.



Trydydd sector llewyrchus a chynaliadwy

CANLYNIAD:

Mae sefydliadau trydydd sector ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gynaliadwy, yn gallu creu incwm ac yn gwneud defnydd gwell o adnoddau i ddarparu gwasanaethau lleol a gwella llesiant pobl.

Cynhaliodd BAVO wyth digwyddiad ariannu lle'r oedd cyfle i sefydliadau gwrdd â staff BAVO a/neu arianwyr mawr yn unigol er mwyn trafod a datblygu ceisiadau cynllunio. Roedd ein cymorthfeydd Cronfa Treftadaeth y Loteri FAWR yn llwyddiannus gyda thri grŵp yn sicrhau **£56,700**. Mae grwpiau eraill a gyfarfu ag arianwyr drwy ein cymorthfeydd yn dal i drafod gyda nhw.

Fe wnaethom ni hefyd weithio ochr yn ochr ag Interlink i gynnal ffair ariannu leol llwyddiannus iawn yn Heol y Cyw i lansio Cronfa Fferm Wynt Taf Elái (RWE) 2016, a oedd yn cynnwys saith corff ariannu ac a ddenodd 20 o grwpiau lleol. Ymysg yr ymgeiswyr a gyflwynodd gais llwyddiannus i gronfa RWE roedd rhandiroedd Heol y Cyw a sicrhodd arian ar gyfer sied/plot wedi'i addasu i'w ddefnyddio gan bobl anabl, a chlwb Little Fingers Kidz Club a lwyddodd i brynu dau liniadur.

Beth wnaethom ni ei gyflawni...?

Ymatebwyd i 1,700 o ymholiadau manwl.

Rhoddwyd cefnogaeth a chynghor penodol i'r ymddiriedolwyr ar 164 achlysur.

Ymatebwyd i 290 o ymholiadau ariannu penodol.

Darparwyd 30 o sesiynau e-frifio, bwletinâu a chylchlythyrau.

Crëwyd 8 o wasanaethau / sefydliadau / mentrau cymdeithasol newydd.

Cyflawnwyd gwerth £1,028,034 o fewnfuddsoddi newydd ar gyfer gweithgareddau, cyfleusterau ac achosion lleol.

Dosbarthwyd £50,000 mewn grantiau lleol i grwpiau lleol.

Pa effaith gawsom ni?

Stori Teuluoedd Arbennig Maesteg...

Fe wnaeth BAVO gefnogi ac arwain grŵp o deuluoedd yn cynnwys plant a phobl ifanc anabl o egin syniad a gafwyd yn 2014 i ddechrau ar y broses o gofrestru'n elusen (Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO) Sylfaenol) gydag incwm o fwy na £9,000 y flwyddyn.



Rhoddwyd cymorth gyda'r cyfansoddiad syml cychwynnol ar gyfer cymdeithas anghorfforedig, darparu hyfforddiant wedi ei deilwra ar ddiogelu a swyddogaeth y Swyddog Diogelu a chynnal cymorthfeydd ariannol yr aeth y grŵp iddyn nhw. Roedd y grŵp yn llwyddiannus yn y ceisiadau ariannol a ddilynodd (e.e. arweiniodd cymorthrfa gyllid plant mewn angen y BBC at fwy na £2,000 o arian grant). Fe'u cefnogwyd hefyd drwy'r broses o gofrestru'n elusen, a llwyddasant i dderbyn y statws hwnnw ym mis Mawrth 2017.

Dywedodd Claire Edmunds, Cadeirydd Teuluoedd Arbennig Maesteg: "Heb gymorth a chefnogaeth staff BAVO ym Maesteg, rwy'n gwbl grediniol na fyddai Teuluoedd Arbennig yn bodoli. Mae BAVO wedi rhoi'r hyder inni sefydlu, rhedeg a datblygu grŵp cefnogi sy'n mynd o nerth i nerth. Mae wedi bod yn adnodd anhepgor i gynifer o deuluoedd yn ein cymuned. Gyda'r hyfforddiant diweddaraf, cynghor ar bolisiau, cymorthfeydd ariannol a materion diogelu, buont yn rhan hanfodol o'n siwrne.

"Cyn sefydlu Teuluoedd Arbennig Maesteg, doedd dim cefnogaeth leol i deuluoedd a oedd yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r straen, y loes calon a'r ansicrwydd sy'n rhan o fagu plentyn gydag anghenion ychwanegol. Bellach mae gennym ni fore coffi wythnosol lle mae rhieni a gofalmwyr yn gefn i'w gilydd, gweithdai gwybodaeth a siaradwyr o bob maes yn rhoi cefnogaeth ddefnyddiol. Mae gweithgareddau yn tu allan i'r ysgol, clybiau chwaraeon ar y penwythnos a gwiwdeithiau teuluol a dyddiau allan i gyd bellach yn rhan o arlwy Teuluoedd Arbennig Maesteg, diolch i dim BAVO."

Pa effaith gawsom ni?

Stori Radio Galaxy Entertainment Ltd...

Mae Galaxy Radio yn orsaf radio ar-lein a sefydlwyd fel menter gymdeithasol a'i lansio ar-lein yn 2016. Mae'r orsaf yn targedu pobl rhwng 15-40 oed ac yn hyrwyddo cerddoriaeth artistiaid lleol heb gytundeb gan roi cyfrwng iddyn nhw ryddhau cerddoriaeth newydd. Mae'r orsaf hefyd yn ceisio lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn ystod y cyfnodau cynllunio, cafodd Galaxy Radio gefnogaeth gyson gan BAVO.

Dyweddodd Ryan, Rheolwr Gyfarwyddwr y Gweithrediadau: "Does gen i ddim cefndir busnes, ac roeddwn i'n credu y byddai sefydlu menter gymdeithasol yn beth hawdd. Ar ôl ymchwilio a chael yr holl wybodaeth gan BAVO, sylweddolais fod cryn dipyn o waith yn gysylltiedig â hynny.

"Cafwyd cefnogaeth cam-wrth-gam gan BAVO i'm tywys drwy'r broses o sefydlu popeth, gan gynnwys dewis y model busnes cywir, cyfarwyddwyr y cwmni, ystyriaethau cyfreithiol a chymorth gyda chynllun busnes. Roedd y cymorth yn wych er gwaethaf ambell rwystr a gododd ar y pryd.

"O'r camau cyntaf, rwy'n falch o ddweud y bu'r gefnogaeth a gawsom ni gan BAVO yn wych. Buaswn yn argymhell yn gwbl ddiffuant i fentrau cymdeithasol newydd eraill ofyn am gymorth, hyd yn oed os nad ydych yn meddwl bod angen cymorth arnoch chi. Heb BAVO, fyddwn i byth wedi gallu gwneud hyn ar fy mhyn fy hun."

Enillodd Radio Galaxy gystadlueaeth hefyd a drefnwyd gan United Graphic Design ar y cyd â Choleg Penybont ar gyfer y rheini oedd yn cymryd rhan ym menter Tref Arbrofol Pen-y-bont. Y wob, a enillwyd gan Ryan am gwblhau'r ffurflen gais orau, oedd pecyn dylunio cyflawn ar gyfer Galaxy Radio Pen-y-bont gan United Graphic Design.



Beth wnaethom ni ei gyflawni...?

Cafodd 9 menter gymdeithasol gymorth, cyngor a gwybodaeth am lywodraethu.

Cafodd 2 unigolyn gymorth cychwynnol gan BAVO a chymorth i sefydlu menter gymdeithasol.

Cafodd 19 sefydliad gefnogaeth gan BAVO i sefydlu Mentrau Cymdeithasol neu i ailstrwythuro eu model busnes.



Pa effaith gawsom ni?

Stori Cymdeithas Clybiau Bowls, Tennis a Sboncen Pen-y-bont...

Nod y sefydliad hwn yw ehangu ei waith a'i gwneud hi'n haws i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol drwy fabwysiadu model menter gymdeithasol.

Dyweddodd y Cadeirydd, Dr Ed Wilkins OBE: "Bu'r cyngor a roddodd BAVO yn anhepgor. Rhoddwyd gwybodaeth inni am y mathau o strwythurau menter cymdeithasol a fyddai'n addas i sefydliadau fel ein sefydliad ni.

"Cyddlynodd BAVO hefyd gyfarfod gyda'r awdurdod lleol. Cyfarfod arbennig o bwysig oedd hwnnw gyda'r Rheoleiddiwr Cwmniau Buddiant Cymunedol. Mae perswadio cyfranddalwyr i dderbyn newidiadau wedi bod, ac yn parhau i fod, yn her, ac roeddem yn ddioleghgar i BAVO am gydlynio cyflwyniad yng Nghyfarfod Blyneddol Cyffredinol ein cwmni. Yn sgil hynny cawsom gytundeb y cyfranddalwyr i barhau i ymchwilio i'r posibilrwydd o newid strwythur i fod yn Gwmni Buddiant Cymunedol."

Trydydd sector llewyrchus a chynaliadwy

CANLYNIAD:

Mae sefydliadau trydydd sector ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gymwys, yn hyderus ac yn gadarn wrth reoli eu sefydliadau, ac yn sicrhau y darperir gwasanaethau priodol i ddiwallu anghenion lleol.

Hyfforddiant

Darparwyd **37** gweithdy hyfforddiant Cyfeillion Dementia a oedd yn hynod boblogaidd. Fe'u trefnwyd ar y cyd â'r Gymdeithas Alzheimer's a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe a Bro Morgannwg ac roedd **1,318** o bobl wedi mynd i'r gweithdai hyn. Lansiodd hefyd Ymrwymiad Maesteg i fod y gymuned sy'n Deall Dementia gyntaf yn y fwrdeistref sirol.

Mae'r rhaglen yn ffurfio'r fenter leol fwyaf erioed sy'n ceisio newid canfyddiad pobl o ddementia. Ei diben oedd trawsffurfio'r ffordd y mae pobl yn meddwl ac yn siarad am y cyflwr ac yn ymddwyn yn ei gylch. I sicrhau cynnaladwyedd hirdymor, anogwyd gwirfoddolwyr yng nghymunedau'r ardal i fod yn Hyrwyddwyr Dementia er mwyn parhau i ddarparu'r sesiynau hyfforddi ac i fod yn ddolen gyswilt gyda chymunedau'r ardal. Cyflwynwyd y sesiynau mewn ysgolion, colegau, archfarchnadoedd, caffis a gorsafoedd tân a'r heddlu. Roedd y disgyblion yn chwarae rhan lawn yn y sesiynau gan ddweud pethau tebyg i "byddaf yn gwneud llawer o bethau diddorol gyda fy mam-gu" ac "os wyf i'n dod o hyd i rywun sydd ar goll mi af i â nhw adre."

Aeth **61** o bobol sy'n gweithio ledled Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i hyfforddiant a drefnwyd gan BAVO yn ystod 2016/17. Penderfynwyd pa gyrsiau i'w cynnal drwy ddadansoddi anghenion hyfforddi.

Beth wnaethom ni ei gyflawni...?

Cyflwynwyd 64 o gyrsiau BAVO

1,616 o bobl wedi ennill sgiliau newydd drwy hyfforddiant BAVO

Ystyriodd 99% o bobl gyrsiau BAVO yn dda iawn neu'n rhagorol.

Trefnwyd **5** cwrs, gyda thri o'r rhain wedi eu hachredu. Roedd yr hyfforddiant yn cefnogi datblygiad personol a phroffesiynol staff a gwirfoddolwyr mewn sefydliadau ledled Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac yn cynnwys lechyd a Diogelwch, Tystysgrif Dysgu Awyr Agored, Cymorth Cyntaf Pellach yn y gwaith, Diogelu Plant Lefel 2, Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl i Bobl Ifanc a Chydraddoldeb Anabledd.

Er mwyn cynhyrchu incwm, cynigiodd BAVO fwy o gyrsiau penodol ar gyfer grwpiau ac asiantaethau unigol. Un llwyddiant trawiadol oedd cynhyrchu a chyflwyno cwrs pedair sesiwn hollol unigryw i grŵp o bobl a oedd yn gwirfoddoli i Wasanaethau Cymdeithasol Caerdydd yn adran Gwasanaeth Adnoddau Defnyddwyr a Gwasanaeth Allestyn Tŷ Canna. Roedd y cwrs yn cynnwys sesiynau ar Ddiogelu Data a chyfrinachedd, hyder a chydweithio fel tîm.

Cynigiodd hyfforddiant i grŵp o wirfoddolwyr yn Ninas Powys ar ddiogelu oedolion mewn perygl. Cyflwynasom hefyd gwrs unigryw pedair sesiwn i grŵp ieuenctid gwirfoddol, wedi ei ariannu gan Ymddiriedolaeth Iechyd y Bobl, i ddatblygu eu sgiliau cyllidebu, cynllunio a thrin arian. Roedden nhw'n falch iawn o dderbyn grant o fwy nac **£17,000** gan Ymddiriedolaeth Iechyd y Bobl o ganlyniad i hyn.



Hyfforddiant Sgiliau Ymyriadau Hunanladdiad Cymwysedig (ASIST)

Mae gan BAVO ddau hyfforddwr arbenigol wedi eu cofrestru gyda LivingWorks Canada BAVO, sef un o ddarparwyr mwyaf blaenllaw y DU mewn Hyfforddiant Sgiliau Ymyriadau Hunanladdiad Cymwysedig (ASIST). Rydym yn gweithio gydag amryw o sefydliadau statudol, sector preifat, cymunedol a thrydydd sector i sicrhau bod pobl agored i niwed yn ein cymunedau yn cael cefnogaeth gan 'swyddogion cymorth cyntaf hunanladdiad' hyfforddedig.

Pa effaith gawsom ni?

Storïau'r bobl fu'n rhan o ASIST...

Cyflwynwyd 6 chwrs ASIST dau ddiwrnod o hyd a 9 cwrs gloywi TuneUP. O'r rhain, dywedodd y bobl a gymerodd ran eu bod maes o law wedi atal 206 person rhag cyflawni hunanladdiad a chael 394 sgwrs gydag unigolion am hunanladdiad.

"Dros y ddau ddiwrnod diwethaf, rwyf wedi defnyddio ASIST gyda dyn ar bont ac ar y ffôn gyda gofaluwr oedranus. Rwy'n gobeithio y bydd mwy o bobl yn gwneud yr hyfforddiant hwn er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth o strategaethau atal hunanladdiad."

"Roedd y cwrs yn ddefnyddiol iawn. Rwy'n teimlo'n hyderus nawr yn trafod hunanladdiad ac yn falch o ddweud fy mod i wedi defnyddio'r technegau ar fwy nag un achlysur gan arwain at ganlyniadau cadarnhaol. Heb yr hyfforddiant ASIST fyddwn i ddim wedi gallu gwneud hynny."

Beth wnaethom ni ei gyflawni...?

111 o swyddogion cymorth cyntaf hunanladdiad hyfforddedig.

80% yn credu bod eu sgiliau cyfathrebu wedi gwella.

80% yn fwy gwybodys am wasanaethau cefnogi lleol i gyfeirio pobl atynt.

85% wedi defnyddio'r sgiliau atal hunanladdiad yr oedden nhw wedi eu dysgu.

96% yn teimlo'n fwy abl i adnabod arwyddion bod rhywun o bosib yn hystyried hunanladdiad.

80% yn fwy hyderus ynglŷn â siarad am hunanladdiad.

93% yn teimlo'n hyderus, yn barod ac yn abl i fentro at rywun yr oedden nhw'n bryderus yn ei gylch.



Trydydd sector hyddysg a dylanwadol

CANLYNIAD:

Mae gan fwy o sefydliadau trydydd sector lais ac maent yn gallu cyfrannu'n hyderus ac yn effeithiol at bolisiau, cynllunio a datblygiadau gwasanaeth ac yn sicrhau bod gwasanaethau lleol yn diwallu anghenion defnyddwyr.

Beth wnaethom ni ei gyflawni...?

Y trydydd sector wedi bod yn rhan o 37 gweithgor / grŵp cynllunio strategol.

Wedi cydlynu 14 fforwm lleol i rannu arloesedd a'r arferion gorau.

Caiff y trydydd sector ei gynrychioli gan Gynghorau Gwirfoddol Sirol ar amryw o grwpiau cynllunio gan gynnwys gweithgareddau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Bae'r Gorllewin; y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a'r Bwrdd Cynllunio Ardal. Rydym hefyd wedi bod yn siarad gyda Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Heddlu De Cymru, Alun Michael, am ei flaenoriaethau, ac wedi cynnal digwyddiadau i fod yn ddolen gyswilt gyda'r Cynllun Lleihau Troseddau ar gyfer yr ardal. Buom hefyd yn gweithio gyda'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol cyfagos i ddatblygu Panel Dinasyddion Rhanbarthol.

Ers i'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc aml-asiantaeth ddod i ben, roedd sefydliadau trydydd sector yn sôn yn gynyddol am ddiffyg cyfleoedd i rannu gwybodaeth am wasanaethau ac i gydweithio er mwyn cyflawni gwell canlyniadau i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Er gwaethaf crybwyll hyn i Fwrdd Gwasanaethau Lleol Pen-y-bont ar Ogwr, ni ddaeth dim ohono.

Aeth BAVO ar ofyn Cynghorau Gwirfoddol Sirol eraill yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Abertawe i ddatblygu Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Trydydd Sector Rhanbarthol er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r materion a bod yn fodd i rannu arferion da. Cynhaliwyd digwyddiad 'Cydweithio dros Blant a Phobl Ifanc ym Mae'r Gorllewin' gyda mwy na 50 o bobl yn bresennol o amryfal fudiadau, gan arwain at ffurfio Fforwm Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc newydd. Mae'r Fforwm yn trafod ac yn ystyried materion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, yn datblygu gwasanaethau mewn modd cydlynus ac yn galluogi mudiadau trydydd sector i gysylltu â chynllunwyr a chomisiynwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe a Bro Morgannwg ledled y rhanbarth.

Mae Grŵp Strategol y Trydydd Sector yn cynnwys cynrychiolwyr o'r trydydd sector sy'n edrych ar faterion sydd ar yr agenda lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Cydweithiwyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i edrych ar gompact y trydydd sector, sef cytundeb

gyda'r trydydd sector sy'n ymdrin â sut y bydd eu perthynas (fusnes) yn gweithio.

Mae'r grŵp hefyd yn gyfrwng arbrofi o fath ar gyfer cynlluniau BAVO ac maen nhw hefyd yn mynd ati mewn modd rhagweithiol i ystyried a rhoi sylw i faterion sy'n effeithio ar y sector ehangach. Eleni, soniasant am y problemau ynglŷn â chaffael a chomisiynu ac yn enwedig am feysydd lle mae arferion dryslyd neu anghyson yn y sector statudol. Daeth y gwaith i ben gyda dosbarth meistr a gweithdy a drefnwyd gan BAVO gyda chymorth Busnes Cymru. Bu hwn yn gymorth i roi dealltwriaeth o'r ffyrdd gwahanol y mae comisiynwr yn gweithio a sut beth yw comisiynu arfer da.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe a Bro Morgannwg wedi bod yn gadarnhaol iawn yn gwrandao ar y sector ac yn gweithio gyda ni ar sut i ddarparu cefnogaeth ychwanegol i'r sector ar gyfer comisiynu prosesau yn y dyfodol.



Pa effaith gawsom ni?

Roedd Grŵp Strategol y Trydydd Sector eisiau gweithio gyda phartneriaid i adolygu'r Compact gan nad oedd yn cael ei ddefnyddio fel dogfen fyw. Aeth y grŵp ati mewn modd rhagweithiol i adolygu a chryfhau'r ddogfen. Mae angen ei chyflwyno i Bartneriaid y Bwrdd Gwasanaeth Lleol yn y flwyddyn ariannol newydd.

"Mae Compact Pen-y-bont ar Ogwr wedi bodoli ers peth amser yn y sir. Fodd bynnag, nid yw aelodau o Grŵp Strategol y Trydydd Sector yn teimlo y bu'n weithredol nac yn effeithiol yn ei nodau a'i amcanion. Rydym wedi treulio amser sylweddol yn rhoi adborth ynglŷn â Chompact Pen-y-bont ar Ogwr. Os caiff ei gweithredu a'i chofleidio gan bob partner sy'n rhan ohono, credwn y bydd yn creu partneriaethau gweithio llwyddiannus a'r cyfleoedd gorau i holl drigolion y sir." Menter Bro Ogwr.

Partneriaethau effeithiol ac ymwneud â pholisïau



Iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant

Bu BAVO yn cydweithio â Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe a Bro Morgannwg fel aelod o chwech o'u Byrddau Comisiynu yn eiriol dros y trydydd sector er mwyn annog rhoi gwell profiad a gofal i gleifion.

Llwyddodd ein gwaith gyda'r clystyrau o Feddygon Teulu i roi cyfle i'r trydydd sector dynnu sylw at y gwasanaethau ataliol lleol sydd ar gael i gefnogi cleifion i wella'u hiechyd a'u lles eu hunain neu gael eu cyfeirio at gefnogaeth ataliol yn y gymuned.

Cyfarfu Rhwydwaith Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant Pen-y-bont ar Ogwr yn chwarterol er mwyn i'r mudiadau hyrwyddo a rhannu gwybodaeth, rhwydweithio a chael gwybodaeth am yr ymgynghoriad ynglŷn â Strategaeth Trydydd Sector Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe a Bro Morgannwg i sicrhau y clywyd llais y trydydd sector. Roedd hyn yn cynnwys rhoi cefnogaeth a gwybodaeth am yr hyn sy'n ofynnol ganddynt er mwyn cael y sgiliau a'r polisiau i baratoi ar gyfer y newid yn y broses ariannu.

Bu'r grŵp hefyd yn cydweithio â'r Fforwm Rhanbarthol sydd â chynrychiolaeth uniongyrchol ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe a Bro Morgannwg, y Cyngor Iechyd Cymunedol a Rhaglen Bae'r Gorllewin. O ganlyniad, mae ganddyn nhw gysylltiad parhaus â chynllunio gwasanaethau ac ymgynghori arnynt.

Bu BAVO yn cefnogi Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe a Bro Morgannwg yn eu cynllun 'Cydweithrediad Rhanbarthol dros Iechyd'. Dull

cydweithredol o weithio yw hyn (gyda Bwrdd Hywel Dda) yn wreiddiol er mwyn cefnogi Canolfan Rhagoriaeth Canser. Mae hyn yn gyfle i'r sector gwirfoddol gyfrannu at y strategaeth ar gyfer gwasanaethau Canser, sy'n cefnogi cleifion drwy eu triniaeth a thu hwnt.

Ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr, cychwynnwyd ar y gwaith a fyddai'n sicrhau mai Maesteg fyddai'r dref gyntaf ym mwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr i ennill statws Cymuned sy'n Deall Dementia. Buom yn gweithio hefyd gyda Chyngor Tref Maesteg, sefydliadau a busnesau lleol i wella sgiliau pobl a chodi ymwybyddiaeth drwy ein sesiynau hyfforddi dan arweiniad y Gymdeithas Alzheimer's.

Roedd y sesiynau'n gyfle i bobl ddeall dementia a sut y mae'n effeithio ar bobl, a'u gwneud yn hyderus o ran sut i ymateb. Yn dilyn hyn, cydweithiwyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe a Bro Morgannwg a chytunwyd ar gyllid i ariannu swydd 12 mis ar secondiad o'r Gymdeithas Alzheimer's i BAVO er mwyn cynnal sesiynau gyda meddygfeydd teuluol yng nghlwtwr Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a chymunedau eraill erbyn mis Mawrth 2017.

Gwnaethom ddarparu hyfforddiant i **11** o feddygfeydd teuluol gan hyfforddi **132** aelod o staff i fod yn Hyrwyddwyr Dementia. Rydym hefyd wedi datblygu perthynas newydd gydag ysgolion, colegau, archfarchnadoedd, caffis, gwasanaethau tân a heddlu ac rydym yn parhau i gynnig sesiynau hyfforddi am ddim i gyflawni ein nod o fod yn Sir sy'n Deall Dementia!

Partneriaethau effeithiol ac ymwneud â pholisïau

Camddefnyddio sylweddau a chynnwys defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr

Bu BAVO yn hyrwyddo'r elfen o gynnwys gofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau gyda Bwrdd Cynllunio Ardal Bae'r Gorllewin a'r Rhwydwaith Cynnwys i Rymuso.

Mae'r Rhwydwaith Cynnwys i Rymuso yn ganolbwynt i weithgarwch gwirfoddolwyr ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Castell Nedd Porth Talbot ac Abertawe, ac yn datblygu cyfleoedd i bobl leisio barn am ddatblygiad gwasanaethau a chefnogi ei gilydd ar eu taith tuag at adferiad. Bu BAVO yn cefnogi'r rhwydwaith i drefnu a chynnal hyfforddiant i ddefnyddwyr gwasanaeth a gwirfoddolwyr ynghyd â digwyddiadau cynhwysiant rhanbarthol fel eu bod yn teimlo'n fwy hyderus yn cynrychioli barn eu cymheiriaid.

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad rhanbarthol. Roedd y cyntaf yn hyrwyddo ac yn codi ymwybyddiaeth o'r rhwydwaith Cynnwys i Rymuso a gwaith Grŵp Cynllunio Ardal y Bae Gorllewinol. Roedd yr ail ddigwyddiad yn canolbwyntio ar gydgefnogi ac yn rhoi gwybodaeth am nifer o brosiectau cydgefnogaeth.

Pa effaith gawsom ni?

Stori Carl...

"Rwy'n falch o ddweud fy mod i ar fy nhrydedd flwyddyn o fod yn rhydd o alcohol, ac ar ôl cael cymorth y gwasanaethau, gallaf weld yn bersonol pa mor werthfawr y bu hyn i mi. Roedd arna i eisiau rhoi rhywbeth yn ôl a chyn hir fe ddes i'n arweinydd grŵp cymheiriaid gyda 'Llwybrau Newid', gan gynnig pecyn cymorth a hyfforddiant i bobl sy'n dechrau ar driniaeth adfer yn yr uned ddadwenwyno. Fe wnes i weithio'n galed iawn ar fy adferiad fy hun ac roeddwn i'n mynd o dro i dro i gyfarfodydd Alcoholics Anonymous ac i Grŵp Cyswllt Pen-y-bont ar Ogwr. Rwy'n gwbl grediniol y bu hyn o les i fy adferiad i."

"Rwy'n mwynhau bod yn rhan o'r Rhwydwaith Cynnwys i Rymuso sydd wedi rhoi hwb i fy hyder ac ehangu fy nealltwriaeth a'm profiad ym maes camddefnyddio sylweddau."

"Ers y tair blynedd diwethaf rwyf wedi tyfu fel person ac mae byw yn bleser unwaith eto. Rwy'n hyfforddi i fod yn gynghorydd cymwys, ac eisoes wedi cwblhau Lefelau 1 a 2 yn llwyddiannus yng Ngholeg y Bari."

Bu BAVO yn chwarae rhan flaenllaw yn cydlynu Mudiad Defnyddwyr Gwasanaethau Cymru Gyfan, sy'n cefnogi Bae'r Gorllewin i gael cynrychiolaeth ar y Fforwm Cenedlaethol.

Er mwyn sicrhau bod gan ddefnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a gwirfoddolwyr y sgiliau angenrheidiol i chwarae rhan ystyrlon ac i gefnogi pobl eraill i wella, cefnogodd BAVO y Rhwydwaith Cynnwys i Rymuso i ddatblygu a chynnal 5 cwrs hyfforddi a datblygiad perthnasol gan gynnwys Cynhwysiant a Llesiant Defnyddwyr Gwasanaeth gyda Newlink Cymru ac ASIST. At hyn cynhaliodd BAVO ei hyfforddiant ei hun ar Sgiliau Diogelu a Phwyllgora.

Aethpwyd ati hefyd i ddiweddarau llyfryn gwybodaeth a chanllawiau lleol ar Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fel adnodd rhanbarthol Bae'r Gorllewin ar gyfer gofalwyr, cyfeillion a pherthnasau sy'n cefnogi pobl sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau.

Sut mae cymryd rhan yn gwneud gwahaniaeth?

Mae defnyddwyr gwasanaeth wedi manteisio ar y cyfle i fynegi eu barn a chreu newid er lles defnyddwyr gwasanaeth eraill, megis prosiect adfer SMART yn Drugaid Cymru, Abertawe, ar ddydd Sul, sy'n rhoi cefnogaeth y tu hwnt i oriau swyddfa cyffredin – rhywbeth y dywedodd defnyddwyr gwasanaeth sy'n fwelch yn y gwasanaeth. Mae aelodau'r Rhwydwaith Cynnwys i Rymuso wedi chwarae rhan weithgar yng nghyfweliadau staff camddefnyddio sylweddau ac yng nghyfarfodydd y bwrdd cynllunio ardal, ac maen nhw hefyd yn rhan o'r cynlluniau cefnogi cymheiriaid.



Partneriaethau effeithiol ac ymwneud â pholisïau

Iechyd Meddwl

Cynhaliodd BAVO nifer o fforymau a rhwydweithiau iechyd meddwl gan gynnwys Fforwm Diagnosis Deuol gan gydweithio â grwpiau defnyddwyr gwasanaeth sy'n gweithio drwy gyfrwng darparwyr gwasanaethau a'r Fforwm 'Cryfach gyda'n Gilydd.'

Mae'r Fforwm Cryfach gyda'n Gilydd yn gweithio gyda defnyddwyr y gwasanaethau iechyd meddwl sydd eisiau bod yn rhan o'r broses o ddylunio, cynllunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau ledled ardal y bwrdd iechyd. Trefnwyd y gweithdai gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n digwydd ym mhob ardal. Mae'r Fforwm yn rhoi gwybodaeth am anghenion defnyddwyr a gofalwyr i'r bobl hynny sy'n cynnal gwasanaethau iechyd meddwl ac mae'n annog asiantaethau i ddatblygu gwasanaethau iechyd meddwl y dyfodol drwy gydweithio.

Roedd y gweithdai'n fodd o roi hwb i hyder pobl a oedd yn gweithio mewn sawl sector gwahanol drwy fod yn gyfrwng iddyn nhw leisio eu barn a'u profiadau. Buont hefyd yn gymorth i rannu dysg ar faterion cyfrinachedd a chyfnwyd gwybodaeth rhwng y person sy'n defnyddio eu gwasanaethau, eu teuluoedd a gweithwyr. Roeddent hefyd yn ffordd o gyfeirio pobl at wasanaethau cymunedol.

Roedd hyn yn gymorth i aelodau ddatblygu gwytnwch ac annibyniaeth bersonol er mwyn rheoli

diffyg iechyd meddwl y tu allan i'r ysbyty a phrosesau triniaeth ffurfiol. Gan ddefnyddio enghreifftiau o'r byd go iawn, rhoddwyd gwybodaeth i ofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth am wirfoddoli ac fe'u hanogwyd i feddwl sut y gallen nhw feithrin gwytnwch personol.

Ymunodd BAVO hefyd â Chynghorau Gwirfoddol Sirol Castell-nedd Porth Talbot ac Abertawe i arwyddo addewid Amser i Newid Cymru i wneud ein datganiad ein hunain ein bod yn dymuno bwrw iddi a mynd i'r afael â'r rhagfarn a'r stigma sy'n bodoli ynghylch iechyd meddwl.

Gydag un o bob pedwar ohonom yn dioddef problemau iechyd meddwl mewn unrhyw flwyddyn, diben Amser i Newid Cymru (ymgyrch iechyd meddwl genedlaethol gyntaf Cymru) yw rhoi terfyn ar y rhagfarn a'r stigma a wynebier gan bobl â phroblemau iechyd meddwl drwy annog pobl i siarad.

Mae'r Addewid yn ddatganiad cyhoeddus bod sefydliad yn awyddus i fynd i'r afael â'r stigma a'r rhagfarn yn erbyn iechyd meddwl. Nid nod ansawdd, achrediad nac ardystiad mohono. Does dim prawf na ffurflen gais. Y cwbl sy'n rhaid i chi ei wneud yw ymrwymo i weithredu mewn modd sy'n rhesymol ac yn realistig i chi ac a fydd yn arwain at leihad mewn rhagfarn yn eich sefydliad chi a'r gymuned ehangach.



Cau'r bylchau: prosiectau ar y cyd

Cyfeillion Cymunedol

Bu'r fenter hon, sydd wedi'i chydlynu gan BAVO, yn gweithio gyda nifer o bartneriaid yn y trydydd sector i ddarparu gwasanaethau cyfeillio cyffredinol ac arbenigol gwirfoddol, caffis cymunedol a gweithgareddau amgen i bobl unig a digwmni dros 50 oed.

Daeth ein cyllid Cyfeillion Cymunedol gan y Gronfa Loteri Fawr i ben ym mis Rhagfyr 2016 ar ôl pum mlynedd. Diben y cyllid hwn oedd ariannu cynlluniau cyfeillio i bobl dros 50 oed, ac fe lwyddwyd drwy'r cynllun i drefnu gwasanaeth cyfeillio cyfrinachol, diragfarn a rhad ac am ddim a oedd yn recriwtio gwirfoddolwyr a'u paru gyda phobl hŷn mewn amrywiol gymunedau.

O fis Rhagfyr i fis Mawrth, sicrhodd cyllid Bae'r Gorllewin barhad y gwasanaeth hanfodol hwn, sy'n gweithio mewn modd strategol ac ymarferol i fynd i'r afael ag arwahanrwydd cymdeithasol.



Beth oedd ein heffaith dros gyfnod pum mlynedd y prosiect?

78.6% yn dweud bod y gwasanaeth wedi eu helpu i feithrin eu hunan-hyder.

66.8% yn dweud bod y gwasanaeth wedi eu helpu i deimlo'n llai pryderus.

86% yn dweud bod y gwasanaeth wedi eu helpu i gynyddu eu cyfleodd i gymdeithasu a chymysgu ag eraill.

75% yn dweud bod y gwasanaeth wedi eu helpu i deimlo'n fwy o ran o'u cymuned.

O leiaf 50% o gaffis cymunedol naill ai wedi cael cyfansoddiad a/neu yn dal ar agor drwy gyfrwng hunanariannu, cymorth cymunedol a/neu weithgareddau codi arian.

Beth wnaethom ni ei gyflawni...?

Paru 50 o bobl hŷn di-gwmni gyda chymheiriaid gwirfoddol.

Recriwtio 37 o gymheiriaid a gwirfoddolwyr i'r caffi.

6,107 o ymweliadau â chaffis cymunedol.

Darparu gwerth mwy na £88,500 o oriau gofal gwirfoddolwyr ar y prosiect.

Gwerth ychwanegol o 10,338 awr o amser gwirfoddolwyr dros gyfnod y prosiect.

Pa effaith gawsom ni?

Stori David...

"Roeddwn i'n teimlo'r gwacter ynof i, roedd y byd yn teimlo'n lle llwm ac unig, a dyna pam y trois i at y cynllun cyfeillio. Rwy'n cofio darllen nad yw'n beth da i ddyn fod ar ei ben ei hun ac roedd hynny'n taro tant gyda mi.

"Rwy'n dioddef gyda phroblemau iechyd meddwl ynghyd â phoen yn fy nghoesau a'm cefn ac ar brydiau mae'n fy llethu. Er y gwn na wnaiff hyn ddiiflannu rwy'n teimlo bod gen i rywun i droi ato nawr i fod yn gefn imi os oes angen help arnaf. Rwy'n gweld fy mhrofiadau bellach fel rhai sy'n fy nerthu ac nad ydw i wedi cael fy nhrechu.

"Mae gen i gydymaith gwirfoddol gwych o'r enw John sy'n ymweld â fi'n rheolaidd. Rydym wedi sefydlu perthynas dda dros y blynyddoedd ac mae wedi fy helpu gryn dipyn. Mae John yn garedig, yn ymroddgar ac yn ddibynadwy.

Mae safon y gwasanaeth yn uchel iawn; dros y pedair blynedd diwethaf mae BAVO wedi fy helpu nid yn unig i fynd i'r caffis cymunedol ond hefyd i fanteisio as wasanaethau eraill fel gwasanaeth cyfeillio dros y ffôn a'r gwasanaeth mân-dasgau. Gyda'r holl gysylltiadau newydd hyn rwy'n teimlo bod rhai o fy mhryderon bellach wedi diflannu. Ac o ran y pryderon



sydd gen i, fe alla i eu trafod nhw gyda fy nghydymaith John.

"Pan ddaw John heibio rydym yn cael sgwrs, yn trin ychydig ar yr ardd ac weithiau'n mynd am drip yn y car neu am dro i dynnu lluniau o'r golygfeydd. Mae e'n fy helpu i fynd siopa, yn fy helpu i ddewis siwt hyd yn oed ar gyfer priodas deuluol. Mae wedi fy annog i goginio mwy ar gyfer fy hun ac rydym wedi gwneud rhai prydau

iach gyda'n gilydd. Mae wedi rhoi o'i amser i fy helpu ar y cyfrifiadur ac roedd hyn yn golygu fy mod wedi gallu gwneud calendrau cartref fel anrhegion Nadolig gan ddefnyddio'r lluniau y gwnaethom ni eu tynnu.

"Hyder yw un o'r prif bethau y mae John wedi dod ag ef i fy mywyd i. Mae wedi fy helpu i fagu digon o hyder i ddechrau mynd i gaffi cymunedol ar fy mhen fy hun. Mae'n ffordd wych imi ddechrau cwrrd â phobl eraill o'r un oed â mi a dechrau cymryd rhan ym mywyd y fro unwaith eto.

"Mae'n anodd meddwl am y dyddiau cynnar hynny cyn John. Hwyrach nad oes arna i eisiau meddwl am ba mor ddigalon a diymadferth oeddwn i bryd hynny. Bellach mae gen i ystyr a diben i fy mywyd ac yn gweld fy hun mewn cyfnod o drawsnewid lle galla i fwynhau bywyd ychydig yn fwy nag yr arferwn ei wneud a gobeithio dod o hyd i dawelwch meddwl."

Prosiect Cwm Llynfi 20

Dangosodd adroddiad lechyd Cyhoeddus bod gan drigolion Cwm Llynfi ar gyfartaledd ugain mlynedd yn llai o ddisgwyliad oes iach nag unrhyw ardal arall yn y fwrdeistref sirol. O'r herwydd, cydlynwyd prosiect Cwm Llynfi 20 gyda chymorth lechyd Cyhoeddus Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Bwrdd lechyd Prifysgol Abertawe a Bro Morgannwg. Aethom ati i weithio gyda'r cyhoedd a darparwyr lleol i weld beth ellid ei wneud ynghylch rhai o'r prif faterion.

Canolbwyntiodd un gweithgor ar ddefnyddio'r awyr agored i wella lles corfforol ac emosiynol pobl. Drwy ymwneud â'r cyhoedd, bu BAVO yn gweithio gyda phobl lleol i lansio Ras Hwyl Siôn Corn. Roedd tair cenhedlaeth o un teulu lleol yn rhedeg, ac nid oedd yr un ohonynt wedi rhedeg cyn belled erioed! Mae BAVO bellach yn cysylltu gwirfoddolwyr lleol ac asiantaethau eraill i ddatblygu sesiwn wythnosol o redeg yn y parc ar gyfer 2017/18.

At hyn, sefydlodd prosiect Cwm Llynfi 20 wasanaeth cyngor iechyd i'w gynnal mewn dau o'r clybiau ieuenctid yng nghwm Llynfi. Roedd y gwaith yn ymwneud ag iechyd rhywiol, cadw'n heini a bwyta'n iach gydag oddeutu 45 o bobl ifanc yn cymryd rhan.

Bu'r grŵp sy'n mynd i'r afael â thrais yn y cartref yn hyrwyddo Ymgrych y Rhuban Gwyn gan weithio gyda myfyrwyr ac ysgolion lleol, meddygfeydd teulu, grwpiau cymunedol, cynghorau tref a chymuned ac

archfarchnadoedd. Roedd Cyngor Tref Maesteg yn falch o roi eu cefnogaeth gan ddangos y rhuban gwyn y tu allan i Neuadd y Dref i godi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod a gwasanaethau cefnogi lleol.

Cydweithredwyd hefyd â Chanolfan Cydweithredol Cymru (Cymunedau Digidol Cymru) a Halo Leisure i annog trigolion Cwm Llynfi i fod yn gyfrifol am eu lles a'u hiechyd meddwl eu hunain. Yn dilyn cyfnod arbrofol cychwynnol o fonitro

dyfeisiau FITBIT gyda Halo Leisure a'u huned gyfeirio ymarfer corff cenedlaethol, bu BAVO yn gweithio gyda Shedquarters Maesteg i gwrdd â grŵp o ddynion dros 50 oed i gadw llygad manwl ar eu hiechyd corfforol ac emosiynol. Anogodd hyn iddyn nhw fod yn fwy egniol ac yn fwy ystyriol o'u hiechyd.

Drwy gydol y rhaglen, cafwyd siaradwyr gwahanol a sesiynau ymarfer corff amrywiol i annog pobl i fod ychydig yn fwy ystyriol o'r hyn y maen nhw'n ei wneud i hyrwyddo eu hiechyd a'u lles eu hunain.



Lleisiau Lleol: Pan Fo Angen

Mae Lleisiau Lleol yn brosiect sy'n cael ei ariannu gan y Gronfa Loteri Fawr ac mae wedi bod yn galluogi cymunedau, grwpiau a defnyddwyr gwasanaethau i feithrin eu hyder a'u sgiliau fel y gallan nhw weithio gyda darparwyr er mwyn dylunio gwasanaethau gwell i ddiwallu eu hanghenion orau a sicrhau canlyniadau gwell i rai o'r bobl fwyaf anodd eu cyrraedd ac sydd ar gyron eithaf ein cymunedau.



ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Pa effaith gawsom ni?

"Fe ddechreuais i fynd i'r Rhwydwaith Hunan-gymorth Hunan-niweidio amser maith yn ôl, ond dim ond pan sefydlwyd y grŵp cyfeillio y dechreuais i gymryd rhan o ddifri. Cyn imi ddod doeddwn i ddim wir yn siarad â neb ond rwyf wedi dysgu cymaint ac wedi gwneud ffrindiau newydd ac rwyf hyd yn oed yn mynd allan ar benwythnosau bellach. Erbyn hyn rwy'n berson llawer mwy hyderus ers imi ymwneud â stondinau gwybodaeth, siarad gyda meddygon am hunan-niweidio a gwneud cyflwyniad yn nigwyddiad blynyddol Lleisiau Lleol."

Beth wnaethom ni ei gyflawni...?

Bu 1,039 o bobl yn rhan o'r rhaglen ac yn teimlo'n fwy galluog i newid pethau.

Bu 472 o bobl ar hyfforddiant drwy'r prosiect ac yn dweud iddyn nhw ennill hyder a sgiliau.

Cefnogwyd 18 grŵp/rhwydwaith ymgysylltu yn y maes gan roi llais i fwy o bobl.

Cydweithwyd â 317 o wasanaethau yn y maes.

Cafodd aelodau Lleisiau Lleol ddylanwad ar 25 grŵp partneriaeth gwahanol.

Rhoi'r gair ar led

Bu BAVO yn gweithio'n galed i hyrwyddo'i waith ynghyd â gwaith ei aelodau a grwpiau cymunedol eraill. Drwy gyfrwng datganiadau wythnosol i'r wasg a chyfweiliadau gyda nhw bob wythnos, codwyd ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau cefnogi, gweithgareddau a chyfleoedd sy'n cael eu cynnig a'u darparu yn y fwrdeistref sirol. Rydym wedi datblygu cysylltiadau cadarnhaol gyda'r wasg a'r cyfryngau lleol ac yn diolch iddyn nhw am eu cefnogaeth barhaus.


Gan ddefnyddio astudiaethau achos, straeon, sylwadau personol a gwybodaeth yn seiliedig ar dystiolaeth, rydym yn defnyddio cynifer o ffynonellau ac adnoddau cyfryngol ag y bo modd i ddangos gwerth, effaith a gwahaniaeth sefydliadau trydydd sector i gymunedau'r ardal. Fe wnaethom hefyd achub ar y cyfleoedd hyn i ddangos y cyswllt gydag amrywiol flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol a'r effaith arnynt, megis cymunedau cydnherth, gwrthdodi, swyddi a sgiliau, iechyd a gofal cymdeithasol a chynaliadwyedd. Mae pob sefydliad trydydd sector yn cyfrannu at y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant mewn rhyw fodd neu'i gilydd ac rydym hefyd yn hyrwyddo'r gwaith a wneir o fewn fframwaith Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a'r amcanion datblygu cynaliadwy.

Beth wnaethom ni ei gyflawni...?


95 o erthyglau am BAVO yn y wasg leol, ar wefannau annibynnol a sylw ar y radio.

21,888 o ymweliadau â www.bavo.org.uk

Sylw a roddwyd i BAVO yn y cyfryngau Erthyglau am BAVO yn y cyfryngau lleol yn 2016/17 o'i gymharu â 2015/16



Gwefan BAVO Sut cyrhaeddodd ymwelwyr y wefan: cymhariaeth flynyddol 2016/17 o'i chymharu â 2015/16



Datganiad yr Archwilwyr Annibynnol i Ymddiriedolwyr Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Penybont (BAVO)

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol cryno Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Penybont (BAVO) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017.

Priod gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r archwilydd

Yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am baratol'r datganiadau ariannol cryno yn unol â'r argymhellion yn y Datganiad o'r Arferion a Argymhellir ar gyfer elusennau.

Ein cyfrifoldeb ni yw rhoi ein barn i chi am gysondeb y datganiadau ariannol cryno gyda'r datganiadau ariannol llawn ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr. Rydym hefyd yn darllen yr wybodaeth arall sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol cryno ac yn ystyried y goblygiadau i'n hadroddiad os byddwn yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau perthnasol amlwg â'r datganiadau ariannol cryno.

Sail ein barn

Roedd ein harchwiliad yn cynnwys cytuno ar y balansau a ddatgelwyd yn y datganiadau ariannol cryno a'r datganiadau ariannol blynyddol llawn. Mae ein hadroddiad ar ddatganiadau ariannol blynyddol llawn yr elusen yn disgrifio'r sail i'n barn ar y datganiadau ariannol hynny ac ar Adroddiad yr Ymddiriedolwyr.

Barn

Yn ein barn ni mae'r datganiadau ariannol cryno yn gyson â datganiadau ariannol llawn ac Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolwyr Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Penybont (BAVO) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017.

Bevan & Buckland

Cyfrifyddion Siartredig ac Archwilwyr Statudol
Tŷ Langdon, Heol Langdon
Abertawe
SA1 8QY

Dyddiad: 14 Medi 2017

Datganiad gan yr Ymddiriedolwyr

Nid y datganiadau ariannol cryno hyn am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017 yw cyfrifon statudol llawn y Gymdeithas, ond maent yn cynnwys crynodeb o'r wybodaeth a gafwyd o'r cyfrifon blynyddol ar Ddatganiad o Weithgareddau Ariannol (SOFA) a'r fantolen.

Efallai nad yw'r datganiadau ariannol cryno hyn yn cynnwys digon o wybodaeth fel bod modd deall materion ariannol yr elusen yn llawn. I gael rhagor o wybodaeth, dylid troi at y datganiadau ariannol llawn ac adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr; gellir cael copïau ohonynt drwy anfon cais i BAVO.

Mae'n rhaid i'r datganiadau ariannol llawn gael eu harchwilio'n allanol gan archwilydd annibynnol a derbyn adroddiad diamod.

Cafodd yr adroddiad a'r datganiadau ariannol llawn eu cymeradwyo gan yr Ymddiriedolwyr ym mis Medi 2017 ac maent wedi cael eu cyflwyno i'r Comisiwn Elusennau ac i'r Cofrestrydd Cwmniâu.

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Pen-y-bont (BAVO)

Mantolen

Ar 31 Mawrth 2017

	2017 £	2017 £	2016 £	2016 £
ASEDAU SEFYDLOG				
Asedau sefydlog diriaethol		250,900		321,647
ASEDAU CYFREDOL				
Dyledwyr	226,526		161,257	
Arian yn y banc ac mewn llaw	1,211,558		1,282,663	
	1,438,084		1,443,920	
RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL				
Credydwyr yn daladwy ymhen un flwyddyn	122,108		205,476	
ASEDAU CYFREDOL NET		1,315,976		1,238,444
CYFANSWM ASEDAU NET		1,566,876		1,560,091
CRONFEYDD				
Cyfyngedig: cronfeydd incwm		335,287		340,590
Anghyfyngedig: cronfeydd incwm				
Cronfeydd dynodedig – reffeniw	557,000		517,000	
Cronfeydd elusennol cyffredinol	423,689		380,854	
		980,689		897,854
Anghyfyngedig: cronfeydd cyfalaf				
Cronfeydd asedau sefydlog dynodedig		250,900		321,647
CYFANSWM CRONFEYDD YR ELUSEN		1,566,876		1,560,091

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Pen-y-bont (BAVO)

Datganiad o weithgarwch ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017

	Cronfeydd anghyfngedig		Cronfeydd Cyfyngedig	Cyfanswm Cronfeydd	Cyfanswm Cronfeydd
	Cronfeydd Cyffredinol £	Cronfeydd Dynodedig £	2017 £	2017 £	2016 £
Incwm a chronfeydd gwaddol o:					
Weithgarwch masnachu arall	148,588			148,588	117,948
Incwm o fuddsoddiadau	3,177			3,177	2,367
Incwm o weithgarwch elusennol	164,831		716,718	881,549	1,048,774
Cyfanswm incwm	316,596		716,718	1,033,314	1,169,089
Gwariant:					
Gwariant ar godi arian	2,169			2,169	2,148
Gwariant ar weithgarwch elusennol	127,242		797,207	924,449	935,967
Gwariant ar weithgarwch masnachu eraill	99,911			99,911	77,625
Cyfanswm gwariant adnoddau	229,322		797,207	1,026,529	1,015,740
Adnoddau incwm/gwariant net cyn trosglwyddiadau	87,274		(80,489)	6,785	153,349
Trosglwyddiadau					
Trosglwyddiadau i gronfeydd cyfyngedig	(89,801)	-	89,801	-	-
Trosglwyddiadau o gronfeydd cyfyngedig	14,615	-	(14,615)	-	-
Trosglwyddiadau i gronfeydd dynodedig	(205,622)	205,622	-	-	-
Trosglwyddiadau o gronfeydd dynodedig	236,369	(236,369)	-	-	-
Enillion/(colledion) ar ailbrisio asedau sefydlog	-	-	-	-	(53,000)
Adnoddau incwm/gwariant net y flwyddyn	42,835	(30,747)	(5,303)	6,785	100,349
Cyfanswm y cronfeydd a ddygwyd ymlaen	380,854	838,647	340,590	1,560,091	1,459,742
Cyfanswm y cronfeydd i'w trosglwyddo i'r cyfnod nesaf	423,689	807,900	335,287	1,566,876	1,560,091

Bridgend Association of Voluntary Organisations



Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Penybont



Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Penybont

112 – 113 Heol y Fasnach, Maesteg, CF34 9DL

Ff: 01656 810400 • E: bavo@bavo.org.uk

Rhif cwmni: 07691764 • Rhif cofrestru'r elusen: 1146543

Ionawr 2018 • © BAVO

www.bavo.org.uk



Hoffai BAVO ddiolch i'n holl gynrychiolwyr ac aelodau yn y sector gwirfoddol am eu cefnogaeth a'u cydweithio parhaus.

Hoffem hefyd ddiolch i'n cyllidwyr:

